# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

**SC(3)-22-09 (p4): 26 Tachwedd 2009**

### Nwy Prydain – cyflwyniad tystiolaeth ysgrifenedig

### Pwyllgor Cynaliadwyedd

### Sesiwn tystiolaeth ar Dlodi Tanwydd yng Nghymru, 26 Tachwedd 2009

### Cyflwyniad

Nwy Prydain yw cyflenwr ynni mwyaf y Deyrnas Unedig. Yng Nghymru rydym yn cyflenwi nwy a thrydan i tua 1m o gwsmeriaid. Rydym yn gyfrannwr sylweddol at economi Cymru, gan gyflogi tua 1,200 o asiantau gwasanaeth cwsmeriaid yng Nghymru, yn ogystal â 500 arall o beirianwyr gosod a chynnal a chadw gwresogi. Rydym hefyd yn berchen ar ac yn gweithredu gorsaf bwer nwy yn y Barri. Fe wnaethom gyhoeddiad yn ddiweddar am Ganolfan Hyfforddiant Sgiliau Gwyrdd yn Nhredegar fydd yn darparu hyfforddiant sgiliau gwyrdd ar gyfer 1,300 o bobl bob blwyddyn.

Mae'r Nwy Prydain yn falch o'r arweiniad yn y diwydiant a ddangoswyd gennym ym maes tlodi tanwydd ac rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb i ddiogelu ein cwsmeriaid mwy agored i niwed o ddifrif calon. Ers 2002 rydym wedi helpu dros 1.3 miliwn o gwsmeriaid mewn tlodi tanwydd, gan fynd ymhell tu hwnt i'n hoblygiadau statudol.

Rydym yn falch iawn i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor a rhoddwn ein hymateb i gwestiynau'r Pwyllgor islaw.

### Pa gamau ydych chi wedi eu cymryd i atal tlodi tanwydd yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

Mae ein holl gynlluniau tlodi tanwydd, gwirfoddol neu statudol, yn gweithredu yng Nghymru. Cawsant eu rhannu rhwng cynlluniau gwirfoddol a chynlluniau gofynnol gan y Llywodraeth megis Targed Gostwng Allyriadau Carbon (CERT) a Rhaglen Arbed Ynni Cymunedol (CESP).

### 1 – Cynlluniau gwirfoddol

### Pecyn Essentials

Mae'r pecyn Essentials ar gyfer cwsmeriaid agored i niwed ac incwm isel yn darparu help wedi'i deilwra i ostwng biliau ynni drwy effeithiolrwydd ynni, mynd i'r afael â materion dyled, cynyddu incwm a rhoi cefnogaeth arbenigol drwy ein partneriaid elusen.

Ar gyfer cwsmeriaid cymwys, mae'n gwarantu tariff a fydd bob amser yn rhatach na'n prisiau safonol. Mae gennym ar hyn o bryd 500,000 cyfrif ar y tariff Essentials, tua 22,500 ohonynt yng Nghymru. Yn 2010, byddwn yn parhau i warantu y bydd ein tariff Essentials bob amser yn rhatach na'n prisiau safonol.

Diffinnir meini prawf cymhwyster fel incwm aelwyd o lai na £15,500 ac yn derbyn budd-dal heb fod â phrawf modd a budd-dal prawf modd, neu dros 70 ar gredyd pensiwn.

### Ymddiriedolaeth Ynni Nwy Prydain (BGET)

Mae'r Ymddiriedolaeth yn elusen a weinyddir yn annibynnol sy'n rhoi grantiau ariannol uniongyrchol i helpu gyda biliau ynni a biliau eraill aelwydydd ar gyfer unigolion a sefydliadau.

### 2 – Cynlluniau Nwy Prydain dan CERT / CESP

### 2a Yma i HELPU

Mae Yma i HELPU yn gynllun sy'n anelu i roi 'r hanfodion cartref i breswylwyr y maent eu hangen i wella eu hansawdd bywyd. Cyflwynwyd Yma i HELPU am y tro cyntaf ond cymhwysodd yn ddilynol am achrediad dan CERT.

Nod y cynllun yw mynd i'r afael ag achosion gwraidd tlodi cartrefi drwy gynnig pecyn o gynnyrch effeithiolrwydd ynni a gwasanaethau hanfodol i aelwydydd, yn ddi-dâl, ar gyfer rhai o gymunedau mwyaf amddifadus Prydain.

Mae hyn yn cynorthwyo gwelliant mewn amodau tai preswylwyr a chyflwr y stoc tai.

Medrai preswylwyr dderbyn:

Cynnyrch effeithiolrwydd ynni am ddim (megis insiwleiddio waliau ceudod a llofft)

Cynnyrch diogelwch am ddim

Cynnyrch diogelu cartref am ddim

Help i hawlio budd-daliadau

Gwiriad Ansawdd Bywyd am ddim

Cyngor a gwasanaethau teilwredig am ddim i'n partneriaid elusen 'yma i HELPU'. Cyflwynir y rhaglen mewn cysylltiad ag awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a phedair elusen.

### 2b Cynllun Tai Cymdeithasol Nwy Prydain

Drwy ein hoblygiad CERT, rydym yn cefnogi amrywiaeth o ddarparwyr tai cymdeithasol yng Nghymru i sicrhau fod aelwydydd cymwys yn derbyn cynnyrch a gwasanaeth arbed ynni yn rhad ac am ddim. Rydym yn gweithio yn unol gyda darparwyr tai cymdeithasol i sicrhau bod aelwydydd cymwys yn derbyn cynnyrch a gwasanaeth arbed ynni yn rhad ac am ddim.

Caiff y cynllun ei reoli un ai'n llawn gan y darparydd tai cymdeithasol neu drwy asiant rheoli sy'n rheoli gwaith syrfe, gosod, arolygu a rhoi adroddiad am y gweithiau.

### 2c Cynllun Treth Cyngor

Mae'r cynllun treth Cyngor blaengar yn cyfrannu tuag at gyflawni oblygiad CERT ac yn defnyddio mesurau cyllidol i sicrhau gwelliannau effeithiolrwydd ynni i gartrefi cwsmeriaid.

• Mae hyn yn helpu i annog y defnydd o effeithiolrwydd ynni
• Hyrwyddir y cynllunio i gwsmeriaid drwy'r cyngor sy'n cymryd rhan
• Mae'r cynghorau'n defnyddio llythyr a thaflen gyda brand deuol a gynhwysir gyda'r bil treth cyngor
• Partneriaethau rhwng Nwy Prydain a chynghorau
• Mae cymhorthdal ar gyfer cynnyrch effeithiolrwydd ynni ar gael
• Gall cwsmeriaid arbed hyd at:

- £115 ar filiau ynni blynyddol o insiwleiddiad waliau ceudod
- £150 ar filiau ynni blynyddol o insiwleiddiad lofft
- 50% o 60% o'r galw am ddwr poeth
• Hyd at £125 o ad-daliad treth cyngor i bob aelwyd
• Hyd at £400 o ad-daliad ar system dwr poeth solar

### 3 - CESP

Mae'r Rhaglen Arbed Ynni Cymunedol (CESP) yn cynnwys pecynnau sylweddol o fesurau effeithiolrwydd ynni i aelwydydd mewn cymunedau incwm isel.

Mae Nwy Prydain wedi cyhoeddi ei 10 ardal arweiniol, ac mae Abertawe yn un ohonynt. Nwy Prydain yw'r cyflenwr ynni cyntaf i gyhoeddi awdurdod lleol i gyflenwi'r model cymuned wrth gymuned o welliannau effeithiolrwydd ynni a ragwelir gan CESP.

### Buddsoddiadau a mesurau eraill

### 4 - Canolfan Sgiliau Gwyrdd Nwy Prydain

Mae Nwy Prydain yn ymwneud â chreu Canolfan Hyfforddiant Sgiliau Gwyrdd gyntaf y Deyrnas Unedig. Byddant yn hyfforddi hyd at 1,300 o bobl bob blwyddyn yn cynnwys darpariaeth i helpu i alluogi pobl ddi-waith tymor hwy lleol i ganfod gwaith yn yr economïau gwyrdd newydd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dynodi 44,000 o gartrefi ar draws ardal Blaenau'r Cymoedd sydd angen gwelliannau effeithiolrwydd ynni. Mae Nwy Prydain eisiau chwarae rôl sylweddol wrth helpu i weithredu'r mesurau hyn yn ogystal â darparu cyfleuster hyfforddiant fydd yn galluogi pobl i gymryd rhan yn y trosiant i ddyfodol carbon isel.

### 5 – Adroddiad Arbedwyr Arian

Mae'n werth nodi pwysigrwydd Adroddiad Arbedwyr Ynni gan ei fod wedi golygu arbedion sylweddol i filiau ynni blynyddol ein cwsmeriaid. Ar gael i bob un o 15.7m cwsmeriaid Nwy Prydain, mae ein Adroddiad Arbedwyr Ynni teilwredig i alluogi cwsmeriaid i gwblhau archwiliad o ddefnydd ynni a pherfformiad effeithiolrwydd ynni eu cartrefi. Mae dros 100,000 o gwsmeriaid wedi cwblhau Adroddiadau Arbedwyr Ynni yng Nghymru, gan greu arbediad ynni cyfartalog o £175 yr aelwyd y flwyddyn.

### B - Dadansoddiad o fesurau tlodi tanwydd yng Nghymru yn 2009

### 1 – Mesurau Gwirfoddol

### 1b – Essentials

Mae gennym tua 22,500 o gyfrifon cwsmeriaid sy'n derbyn pecyn Essentials yng Nghymru. Wrth gyhoeddi'r cynnydd mewn prisiau ym mis Gorffennaf 2008, dywedodd Nwy Prydain y byddai'n gohirio'r cynnydd hyd fis Ebrill 2009 ar gyfer ei gwsmeriaid mwyaf agored i niwed. Mae hyn yn arbediad o £214 yr aelwyd ar gyfartaledd. Manteisiodd cwsmeriaid Essentials hefyd o ostyngiadau o 10% mewn prisiau nwy a thrydan yn 2009.

### 1b – Ymddiriedolaeth Ynni Nwy Prydain

Ers sefydlu'r Ymddiriedolaeth, dyrannwyd £320,954 i unigolion a sefydliadau yng Nghymru i gynorthwyo wrth fynd i'r afael â chaledi ariannol aelwydydd. Dyfarnwyd £50,000 yn ychwanegol i grwpiau ac unigolion yng Nghymru yn 2009.

### Grantiau i unigolion a theuluoedd yng Nghymru:

2005: 36 dyfarniad £14,781
2006: 81 dyfarniad £31,371
2007: 152 dyfarniad £96,013
2008: 94 dyfarniad £49,865
2009 hyd yma: 35 dyfarniad £29,269

**Grantiau i Sefydliadau:**

1. Merthyr Tudful 2005-2008: = £79,134
2. CAB Sir Caerffili 2005-2007 = £71,259
3. CAB Sir y Fflint 2006-2008 = £50,000
4. Canolfan Cynghori Bro Ddyfi 2007 – 2008 = £70,000
5. Grantiau i sefydliadau a ddyfarnwyd hyd yma yn 2009 = £21,292

Cyfanswm £320,954

### 2 – Cynlluniau Nwy Prydain dan CERT a CESP

### 2a – Yma i HELPU:

Yn 2009, cafodd 6,295 arall o fesurau eu gosod mewn tai cymdeithasol yng Nghymru yn yr ardaloedd dilynol:

### Ynys Môn:

Cyfanswm nifer y swyddi a gwblhawyd: 2566
Cyfanswm mesurau: 2950
Asesiadau ansawdd bywyd: 3347
Atgyfeiriadau elusennol: 119

### Bro Myrddin:

Cyfanswm nifer y swyddi a gwblhawyd: 56
Cyfanswm mesurau: 64
Asesiadau ansawdd bywyd: 30
Atgyfeiriadau elusennol: 2

### Cyngor Gwynedd

Cyfanswm nifer y swyddi a gwblhawyd: 273
Cyfanswm mesurau: 314
Asesiadau ansawdd bywyd: 417
Atgyfeiriadau elusennol: 8

### Gwynedd

Cyfanswm nifer y swyddi a gwblhawyd: 2348
Cyfanswm mesurau: 2670
Asesiadau ansawdd bywyd: 2578
Atgyfeiriadau elusennol: 97

### Cymoedd i Arfordir

Cyfanswm nifer y swyddi a gwblhawyd: 258
Cyfanswm mesurau: 297
Asesiadau ansawdd bywyd: 482
Atgyfeiriadau elusennol: 17

Cafodd 11,829 mesur pellach eu gosod mewn tai preifat ond nid oes gennym ddadansoddiad adeg llunio'r adroddiad hwn o ble gosodwyd y mesurau hyn.

Cynhaliwyd 829 gwiriad iechyd budd-daliadau yng Nghymru yn 2009 fel rhan o'r cynllun Yma i HELPU. Dengys ein hymchwil y dynodir amcangyfrif o £1,500 i bob aelwyd bob blwyddyn fel canlyniad i gynnal y gwiriad iechyd budd-daliadau. Ar y sail yma, medrai'r gwiriad

iechyd budd-daliadau fod wedi cyfrannu dros £1.2m mewn incwm ychwanegol yn uniongyrchol yn ôl i aelwydydd Cymru yn ystod 2009.

### 2b - Partneriaethau Tai Cymdeithasol (Atgyfeiriadau a Mesurau a gwblhawyd)

### Mesurau a gwblhawyd yn 2009: 5467

Bro Myrddin : 9 mesur
Caerdydd: 197 mesur
Cyngor Sir Ceredigion: 335 mesur
Clwyd Alyn: 423 mesur
Cymdeithas Tai Gogledd Cymru: 441 mesur
Cyngor Sir Benfro: 1544 mesur
Cymdeithas Tai Clwyd: 200 mesur
Tai Eryri: 31 mesur
Cymoedd i Arfordir: 2287 mesur

### 2c – Cynllun Treth Cyngor (Mesurau a weithredwyd ac ad-daliadau a wnaed)

Cyngor Sir Gaerfyrddin: 2 mesur
Cyngor Sir Conwy: 3 mesur
Cyngor Sir Merthyr Tudful: 2 mesur
Cyngor Sir Fynwy: 125 mesur

### 3 – Mesurau oblygiad CESP

### Cyhoeddwyd Abertawe fel cynllun arweiniol yng Nghymru a bydd yn cynnwys y mesur dilynol:

Insiwleiddio Llofft
Wal Ceudod
Wal Soled
CHI
Newid tanwydd
Bwyleri
Rheoli Gwresogi
Atal Drafftiau

### Cyfanswm Mesurau a osodwyd dan bob cynllun CERT hyd yma (Hydref)

Medru Talu - 688
Yma i Helpu Preifat - 11,849
Yma i Helpu Cymdeithasol - 6,295
Tai Cymdeithasol - 5,467
Cyfanswm Mesur - 24,299

### Cyfanswm arbedion CO2 dan bob cynllun CERT yn 2009 hyd yma (Hydref)

Medru Talu – 15,853
Yma i Helpu Preifat – 233,597
Yma i Helpu Cymdeithasol - 91,861
Tai Cymdeithasol – 37,944
Cyfanswm arbedion CO2 - 379,255 tunnell

### Sut ydych chi'n gweithredu polisïau'r Llywodraeth a sut maent yn gweithio?

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyflwyno ystod o bolisïau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd sydd wedi arwain at y lefel uchaf eto o fuddsoddiad gan gyflenwyr a'r Llywodraeth. Dan CERT, mae cyflenwyr wedi arloesi drwy weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol ac elusennau. Fodd bynnag, er y lefel buddsoddiad yma, mae nifer y bobl sydd mewn tlodi tanwydd yn cynyddu. Mae pob cynnydd o 1% ar filiau ynni yn rhoi 40,000 o bobl ychwanegol mewn tlodi tanwydd.

Cafodd y diffiniad gwreiddiol o dlodi tanwydd ei lunio cyn bod y pwysau amgylcheddol, seilwaith a diogelwch ynni cyfredol ar filiau ynni yn amlwg i gyd. Derbynnir yn gyffredinol fel ffaith erbyn hyn y bydd yn rhaid i heriau newid yn yr hinsawdd a diogelwch ynni gael eu cyfarfod gyda biliau ynni uwch. Yn y "Cynllun Trosiant Carbon Isel", amcangyfrifodd y Llywodraeth y byddai biliau yn cynyddu gan gymaint â 8% fel canlyniad i bolisïau megis gweithredu mesuryddion deallus a'r lefi Dal a Storio Carbon erbyn 2010. Mae'r ffigur hwn yn eithaf cynnil gan ei fod hefyd yn tybio cwymp mewn galw. Daeth adroddiad diweddar gan Ofnem i'r casgliad y byddai prisiau adwerthu yn cynyddu gan rhwng 14% a 25% - gyda 'phigau' o hyd at 60% - erbyn 2010.

Credwn y dylai fod adolygiad sylfaenol o dlodi tanwydd. Er enghraifft, mae'r Llywodraeth yn cynnig gorfodi tariffau cymdeithasol ond ni fydd tariffau cymdeithasol eu hunain yn symud pobl o dlodi tanwydd. Yn wir, gall gorfodaeth gael yr effaith groes o wthio mwy o bobl i

dlodi tanwydd wrth i gost uwch rhoi tariff cymdeithasol i fwy o gwsmeriaid gael ei ledaenu ar draws biliau defnyddwyr.

Mae gan effeithiolrwydd ynni hefyd rôl allweddol i'w chwarae a medrai'r rhaglen CESP roi model delfrydol ar gyfer helpu pobl yn ardaloedd mwyaf amddifadus y wlad. Unwaith eto, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ystyried sut y dylid darparu effeithiolrwydd ynni i gartrefi ar ôl i CERT a CESP ddod i ben yn 2012 a chroesawn eu huchelgais i sicrhau mesurau arbed ynni yn gyflymach i gartrefi. Mae ein hymagwedd at wireddu'r uchelgais hwn yn rhagweld model sydd yn:

Defnyddio ymagwedd cymuned wrth gymuned, gyda chyflenwyr yn gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol

Integreiddio cyflwyno pecynnau effeithiolrwydd ynni 'ty cyfan' gydag ymestyn mesuryddion deallus yn genedlaethol

Cadw elfen galw, fel y gall pobl sydd eisiau arbed arian a gollwng allyriadau cyn yr ymestyn cydlynol ddechrau wneud hynny.

Credwn fod y buddsoddiad yng Nghanolfan Hyfforddiant Sgiliau Gwyrdd Nwy Prydain yn Nhredegar yn arddangosiad sy'n arwain y diwydiant o'n hymrwymiad i'r egwyddorion uchod ac yn rhoi Cymru ar flaen y symud i ddyfodol carbon-isel ar gyfer y Deyrnas Unedig.

Mae hefyd angen i'r Llywodraeth fod yn feiddgar wrth drin tlodi tanwydd. Mae cwmpas enfawr i sicrhau fod pobl yn hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt - dangosodd Nwy Prydain drwy ei gynllun Yma i HELPU y gall hyn fod yn ffordd effeithiol iawn o gynyddu incwm aelwydydd. Mae budd-daliadau heb eu hawlio yn gyfanswm o tua £8bn yn y Deyrnas Unedig yn cynnwys tua £5bn i bensiynwyr. Dylai'r Llywodraeth hefyd edrych ar dargedu'r lwfans tanwydd gaeaf a aiff ar hyn o bryd i 12 miliwn o bensiynwyr "heb ystyried angen, "ar gost o £2.5bn i'r llywodraeth. Medrid targedu'r arian hwn yn llawer gwell at y pensiynwyr mwyaf agored i niwed ac os y'i talid yn uniongyrchol i'r cyflenwyr ynni, medrid ei ddefnyddio'n uniongyrchol i ostwng biliau ynni.

Croesawn bapur ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gynllun tlodi tanwydd newydd i dargedu'r cwsmeriaid mwyaf agored i niwed. Mae hyn yn dangos y gofyniad am well cydlynu o'r pecynnau cymorth sydd ar gael i aelwydydd agored i niwed a thlawd mewn tanwydd ac edrychwn ymlaen at ymateb i'r ymgynghoriad hwn maes o law.

## Faint ydyn ni'n ei wario ar dlodi tanwydd?

Yn 2008 cytunodd Nwy Prydain i wario £125m fel rhan o'r cytundeb tlodi tanwydd cyflenwyr dros y cyfnod 2008-2011. Roedd ein gwariant arfaethedig ar gyfer 2008-2010 yn £76m a bydd yr union wariant tua dwywaith y swm hwn ar £152m, gyda thua £7.5m ohono'n cael ei wario yng Nghymru.